Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Ysmygu i Fyfyrwyr

## 1. Cyflwyniad

O dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle etc  1974, mae gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant ei gweithwyr a gwneud darpariaeth debyg ar gyfer y sawl nad ydynt yn gweithio iddi, gan gynnwys myfyrwyr ac ymwelwyr a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau'r Brifysgol.

Hefyd, gwnaeth Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru), a gyflwynwyd i Gymru yn 2007, gyflwyno deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn mangreoedd "caeedig" neu "sylweddol gaeedig".

## 2. Diben

Amcan y polisi hwn yw sicrhau amgylchedd di-fwg, iach a diogel ar gyfer y sawl sy'n astudio neu yn ymweld â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a sicrhau cydymffurfiad â'i dyletswyddau statudol  a'r Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007.

## 3. Cwmpas a Diffiniad

Mae'r polisi yn berthnasol i holl fyfyrwyr y Brifysgol, yn ogystal ag ymwelwyr, contractwyr ac is-gontractwyr pan fyddant ar eiddo y mae'r Brifysgol yn ei berchen ac yn ei reoli. Mae hefyd yn berthnasol i eraill a allai ddefnyddio'r Brifysgol a'i heiddo, gan gynnwys y sawl sy'n mynychu neu yn ymweld â'r crèche.

Mae'r term 'ysmygu' yn berthnasol i sigaréts, e-sigaréts ac offer ysmygu arall sy'n cynhyrchu mwg.

## 4. Polisi

Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw adeilad sy'n eiddo i'r Brifysgol, gan gynnwys mannau addysgu, swyddfeydd / mannau gweithio, neuaddau preswyl, barrau, mannau bwyta, cyfleusterau cynadledda, crèche neu mewn unrhyw fan caeedig neu sylweddol gaeedig, gan gynnwys adeiladau dros dro, megis pebyll mawrion ac ati.

Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw gerbyd sy'n eiddo i'r Brifysgol, gan gynnwys rhai sydd wedi'u llogi neu'u prydlesu ar ran y Brifysgol. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os caiff y cerbyd ei ddefnyddio gan un unigolyn yn unig.

Ni chaniateir ysmygu yn yr ardaloedd hynny sydd yn union y tu allan i adeiladau ac yn agos at ffenestri o fewn cwrtil eiddo'r Brifysgol, lle gallai mwg baco achosi niwsans a/neu risg o niwed i iechyd eraill. Caniateir ysmygu yn y mannau ysmygu dynodedig yn unig.

Gofynnir i bawb sydd am ysmygu i barchu hawliau unigolion eraill i fwynhau amgylchedd di-fwg.

Caiff arwyddion eu harddangos yn glir wrth fynedfeydd ac o fewn adeiladau'r Brifysgol er mwyn hysbysu unigolion bod angen cydymffurfio â  Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007.

## 5. Cyfrifoldebau

Caiff myfyrwyr eu hysbysu ynglŷn â'r Polisi hwn gan yr Adran Profiad Myfyrwyr yn ystod y broses gynefino.

Mae pawb sy'n caffael nwyddau neu wasanaethau ar ran y Brifysgol yn gyfrifol am wneud unigolion yn ymwybodol o'r polisi hwn. Gallai hyn gynnwys contractwyr, is-gontractwyr neu ymwelwyr.

Mae trefnwyr digwyddiadau yn gyfrifol am sicrhau bod y sawl sy'n mynychu'r digwyddiadau yn ymwybodol o'r polisi hwn.

### 6. Camddefnyddio'r Polisi

Gweithredir gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr y Brifysgol pe bai myfyriwr yn methu cydymffurfio â'r polisi hwn. Bydd y sawl nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau di-fwg hefyd yn euog o drosedd, ac mae'n bosibl y byddant yn agored i hysbysiad cosb benodol.

### 7. Cymorth wrth roi'r gorau i ysmygu

Gall Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Walesddarparu cymorth a chefnogaeth i bawb sydd am roi'r gorau i ysmygu. Neu, gallwch ofyn i'ch meddyg teulu am gymorth pellach a chyngor.

### 8. Cysylltau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

- Polisi Disgyblu Myfyrwyr
- Telerau ac Amodau Preswyl

### 9. Goblygiadau Adnoddol

| **Goblygiad** | **Manylion** |
|---|---|
| Cyllid | Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag arwyddion wedi'u cynnwys o fewn cyllideb gyfredol yr Adran Ystadau. |
| Staff | Caiff ymgynghori ag Undeb y Myfyrwyr ei wneud fel rhan o ddatblygu'r polisi. |
| Asedau | Ni nodwyd unrhyw asedau ychwanegol. |
| Partneriaid | Disgwylir i bartneriaid gydymffurfio â'r Polisi hwn. |
| Graddfeydd amser | Caiff y polisi ei weithredu ar unwaith ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. |
| Arweinyddiaeth | Y Pro Is-ganghellor Cysylltiol Profiad Myfyrwyr Mirjam Plantinga |

### 10. Asesu Effaith

| Goblygiad | A gafodd y goblygiad ei ystyried? (Do / Naddo) | Yr effaith a nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | Ceir y manylion hyn yng nghorff y polisi |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | Mae'r polisi yn cefnogi gwerthoedd datblygiad cynaliadwy'r Brifysgol, yn ogystal â gwerthoedd Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| Dadansoddi Risg | | Mae'r polisi yn cyfathrebu'n glir y weithred sydd ei hangen i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ysmygu. |
| Cydraddoldeb | | Mae'r polisi yn hyrwyddo hawliau cyfartal pawb i fod mewn amgylchedd di-fwg, iach a diogel wrth astudio, neu ymweld â'r Brifysgol. |
| Yr Iaith Gymraeg | | Ceir, o fewn y Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007 ofyniad cyfreithiol bod pob arwydd yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog. Yn ogystal, caiff y polisi ei gyflwyno i bawb yn ddwyieithog. |
| Amgylcheddol a Chynaladwyedd | | Mae ethos y polisi yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015 o ran hyrwyddo gweledigaeth hirdymor, yn enwedig drwy hyrwyddo Cymru fwy iach. |
| Cyfathrebu / Y Cyfryngau / Marchnata | | Caiff myfyrwyr eu hysbysu yn ystod y broses cynefino myfyrwyr a thrwy fwletin y myfyrwyr. Cyhoeddir hefyd y Polisi ar wefan y Brifysgol, er mwyn bod partneriaid, contractwyr ac ymwelwyr eraill yn gallu ei gyrchu. Bydd yr arwyddion a gaiff eu harddangos wrth fynedfeydd adeiladau hefyd yn cyfeirio at wahardd ysmygu. |

**Awdur(on) y Polisi:**

Miriam Plantinga - Pro Is-ganghellor Cysylltiol  Profiad Myfyrwyr.

**11. Rheoli fersiwn y ddogfen**

| Rhif y fersiwn | Y rheswm am y newid | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Y fersiwn ddrafft wedi'i dosbarthu ar gyfer ymgynghoriad ymhlith Profiad Myfyrwyr, Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch ac undebau'r staff a myfyrwyr. | CG | 02.05.17 |
| 0.2 | Y fersiwn ddrafft wedi'i newid er mwyn canolbwyntio ar fyfyrwyr. | | 05.09.17 |
| 0.3 | Newidiadau pellach i'r polisi yn dilyn ymgynghori â'r Adran Adnoddau Dynol. | MP | 03.10.17 |
| | | | |

(dylai hyn gynnwys siwrne'r polisi drwy strwythur y Pwyllgor).